# Y GRONFA TWF LLEOL
# GRANT DATBLYGU BUSNES

## NODIADAU ARWEINIAD I YMGEISWYR

Mae'r Grant Datblygu Busnes yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU, trwy Lywodraeth Cymru, a bydd yn cefnogi busnesau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i arallgyfeirio, datgarboneiddio a thyfu, gan arwain at **greu swyddi**.

Mae grantiau wedi'u bwriadu i gefnogi prosiectau a buddsoddiadau sy'n cyfrannu at flaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer twf economaidd:

- Cefnogi twf busnesau
- Meithrin gallu ar draws busnesau sydd wedi'u lleoli yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr a'r llafurlu ehangach
- Mynd i'r afael â phrinder sgiliau
- Ysgogi swyddi sgiliau uwch yn economi'r dyfodol a hybu integreiddio rhanbarthol
- Symud i economi carbon isel
- Cadw a gwella cyfalaf ecolegol/naturiol
- Diogelu addysg at y dyfodol
- Gwella cysylltedd ffisegol a digidol
- Cryfhau rôl y gwasanaeth cyhoeddus a'r economi sylfaenol
- Cefnogi cadwyni cyflenwi lleol.

**Cyn gofyn am ffurflen gais, dylech sicrhau y gall eich prosiect gyflawni allbynnau a chanlyniadau gofynnol y Gronfa a'i fod yn gallu cael ei gwblhau cyn pen cyfnod o 4 mis o ddyddiad derfyn y llythyr yn cynnig y grant.**

## PA SECTORAU BUSNES SY'N GYMWYS

Gall y Grant Datblygu Busnes gefnogi busnesau yn y sectorau canlynol:

- **Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch**
- **Lled-ddargludyddion Cyfansawdd**
- **Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig**
- **Creadigol**
- **Technoleg Ariannol**
- **Yr Economi Sylfaenol Dynol** (Addysg, Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a'r Gwasanaethau Brys, Lletygarwch, Manwerthu a Thwristiaeth).

## PWY SY’N GALLU GWNEUD CAIS

- Mae Masnachwyr Unigol, Partneriaethau, Cwmnïau Cyfyngedig, Cwmnïau Cydweithredol a Phartneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig, Mentrau Cymdeithasol Cofrestredig neu Elusennau yn gymwys i wneud cais.
- Trosiant gweithredol uwchradd y trothwy TAW cyfredol (£90,000) yn ystod y 3 blynedd diwethaf.
- Busnesau sefydledig sydd wedi bod yn masnachu am fwy na 3 blynedd.
- Cyfeiriad busnes ym mwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr.
- Busnes bach a chanolig (llai na 250 o gyflogeion a throsiant blynyddol o lai na €50 miliwn).

Os nad ydych yn sicr a ydych yn gymwys, cysylltwch â businessfunds@bridgend.gov.uk a fydd yn gallu rhoi cyngor i chi.

Caiff y Grant Datblygu Busnes ei ddyfarnu dan Reolau Cymorthdaliadau’r DU. Rhaid i bob cais hefyd ystyried sut byddant yn cyflawni yn unol â’r drefn rheoli cymorthdaliadau, yn unol â chanllawiau Llywodraeth y DU.
https://www.gov.uk/government/collections/subsidy-control-regime

Pan nad yw ymgeiswyr yn dangos yn ddigonol fod y prosiect arfaethedig yn cydymffurfio â’r Drefn Rheoli Cymorthdaliadau’r DU, gellir ei ystyried yn anghymwys a gall eich cais gael ei wrthod.

## FAINT ALLWCH CHI WNEUD CAIS AMDANO

Mae’r Grant Datblygu Busnes yn darparu **50%** o gostau prosiectau cymwys. Y grant lleiaf yw **£5,000** a’r grant mwyaf sydd ar gael yw **£25,000** (heb gynnwys TAW).

Rhaid i geisiadau arwain at y canlynol:-

**Rhaid i grantiau o £5,000 - £14,999 arwain at greu o leiaf 1 swydd.**
**Rhaid i grantiau o £15,000 - £25,000 arwain at greu o leiaf 2 swydd.**

Caiff y grantiau eu dyfarnu ar ôl ymarfer sgorio, a rhaid i bob ffurflen gael ei llenwi a chynnwys y wybodaeth berthnasol.

## YR HYN Y GELLIR EI ARIANNU

Gallai enghreifftiau o wariant cyfalaf cymwys gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i’r canlynol:

- Gweithgynhyrchu peiriannau
- Offer cyfalaf sy’n gysylltiedig â busnes, gan gynnwys diogelwch tân
- Offer cyfrifiadurol
- Datblygu gwefannau
- Gwaith adeiladu bach / gwelliannau i adeiladau busnes, gan gynnwys gwelliannau cymedrol yn gysylltiedig â’r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd

**Sylwch nad yw’r rhestr hon yn gynhwysfawr a chaiff ceisiadau eu gwerthuso fesul achos. Caiff uchafswm o 5 eitem eu hystyried fesul cais.**

## YR HYN NA ALLWN EI ARIANNU

- Unrhyw gostau yr aed iddynt cyn cael cymeradwyaeth ffurfiol
- Unrhyw gostau refeniw
- TAW neu unrhyw drethi eraill
- Ffioedd banc / cyllid ac ad-daliadau benthyciadau
- Costau cyfreithiol sy'n ofyniad statudol
- Costau rhedeg / refeniw arferol neu barhaus (gan gynnwys rhenti, trethi, yswiriannau, cyflogau, rhenti parhaus)
- Ffi codi arian
- Cerbydau
- Costau hyfforddiant
- Deunydd marchnata a chostau hysbysebu
- Aelodaeth o Gyrff Proffesiynol, ffioedd trwyddedau a thanysgrifiadau
- Ailariannu dyledion drwg o unrhyw fath neu rwymedigaethau'r cwmni nad ydynt yn gysylltiedig â'r prosiect
- Costau ceisiadau cynllunio
- Yswiriant
- Paratoi cynlluniau ac astudiaethau e.e. cynlluniau busnes / astudiaethau dichonolrwydd
- Stoc neu eitemau na ellir eu hailddefnyddio
- Cymorth grant i drydydd partïon
- Gwaith sy'n cael ei wneud ar eiddo domestig, naill ai adeilad newydd neu adnewyddu neu estyniadau / ystafelloedd gardd / cabanau pren

## SUT I WNEUD CAIS

- Ffurflen gais wedi'i llenwi a'i llofnodi
- Dau ddyfynbris cymharol sy'n ymwneud â phob elfen o wariant cymwys. Y dyfynbris rhataf i a ddarperir i bennu swm y grant
- Cynllun Busnes
- Rhagolygon llif arian am 12 mis a dwy flynedd o gyfrifon
- Os oes angen caniatâd cynllunio neu newid defnydd sy'n gysylltiedig â safle / adeilad masnachol ar gyfer y prosiect, yna rhaid darparu tystiolaeth o'r gymeradwyaeth cyn y gellir cymeradwyo grant
- Prawf o gyllid ar gael, boed mewn cyfrif busnes neu fenthyciad, i alluogi prynu 100% cyn hawlio grant
- Rhaid i brosiectau gael eu cyflawni erbyn mis Mawrth 2027 a rhaid darparu'r holl dystiolaeth, gan gynnwys ad-daliad, o fewn yr amserlen hon
- **RHAID i brosiectau arwain at greu swyddi**

Pan fydd ceisiadau cymwys wedi'u cyflwyno'n llawn, ynghyd â thystiolaeth ategol, bydd y canlynol yn cael eu cyflawni:

- Bydd swyddogion yn cwblhau ymarfer sgorio, ynghyd â gwiriadau diwydrwydd dyladwy a rheoli cymorthdaliadau.
- Bydd adroddiad cryno'n cael ei baratoi ar gyfer Prosiectau Cymwys ar gyfer y Panel Grantiau.
- Bydd y Panel Grantiau'n adolygu'r argymhellion ac yn gwneud cymeradwyaethau.
- Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael Llythyr Cynnig Grant ffurfiol.

**Ni ddylid mynd i unrhyw wariant cyn cymeradwyo grant, gan na ellir dyfarnu'r grantiau'n ôl-weithredol. Dan amgylchiadau arferol, byddwn ond yn cefnogi un cais am gyllid dan y Grant Datblygu Busnes.**

**NI** ddylai'r busnes / cyfarwyddw(y)r y busnes fod â buddiant / cyfranddaliad yn unrhyw un o'r cwmnïau sy'n cyflenwi dyfynbrisiau / amcangyfrifon ar gyfer y cais am grant. Rhaid i'r Ymgeisydd dderbyn telerau ac amodau'r grant trwy lenwi a dychwelyd y Dystysgrif Derbyn, y

byddwn yn ei chyhoeddi os bydd eich cais am grant yn llwyddiannus. Peidiwch â bwrw ymlaen â'ch prosiect hyd nes i chi ddychwelyd y Dystysgrif Derbyn. Os na fydd y prosiect yn symud ymlaen yn ystod y cyfnod a nodir yn y llythyr cynnig, bydd y grant yn dod i ben yn awtomatig.

**NI** fydd eitemau sy'n cael eu prynu trwy gerdyn credyd / hurbwrcas / cytundebau credyd estynedig / prydlesi ariannol a phryniannau arian parod yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid grant. Rhaid gwneud pob pryniant o'r **CYFRIF BANC sydd wedi'i restru ar y ffurflen gais, y mae'n rhaid iddo fod yn enw'r Busnes neu'r Ymgeisydd.**

Os bydd y cais yn llwyddiannus, caiff y cyllid grant ei dalu'n uniongyrchol i **GYFRIF BANC** yr Ymgeisydd neu'r Busnes ar ôl cael anfonebau a gweld datganiadau banc i gadarnhau'r taliad a monitro boddhaol.

Ni fydd y grant yn cael ei gynnig na'i dalu os yw'r Busnes neu'r Ymgeisydd mewn ôl-ddyledion ag unrhyw daliad i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Caiff gwiriadau eu gwneud yn ôl y gofyn, i'w benderfynu gan eich Swyddog Prosiect.

## RHEOLI CYMORTHDALIADAU

Dan Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022, cymhorthdal yw lle mae awdurdod cyhoeddus yn darparu cymorth i fusnes sy'n rhoi mantais economaidd iddo, sy'n golygu na ellid bod wedi cael cymorth cyfwerth ar delerau masnachol.

Caiff cymorth grant a ddarperir gan y Grant Datblygu Busnes ei gynnig dan Gymorth Ariannol Lleiaf (MFA). Mae gan MFA drothwy ariannol sy'n golygu na all unrhyw dderbynnydd gael mwy na £315,000 yn ystod y cyfnod perthnasol dan adran 36(1) Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022.

Dylid ystyried pob un o'r canlynol wrth gyfrifo swm y MFA y mae'ch busnes wedi'i gael yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol:

- MFA arall
- Gwasanaethau o Fudd Economaidd Cyhoeddus (SPEI)
- Cymorth a roddwyd dan reoliadau cymorth gwladwriaethol *de minimis* yr Undeb Ewropeaidd cyn diwedd y cyfnod gweithredu, sef 31 Rhagfyr 2020, a
- Chymorthdaliadau a roddwyd fel symiau bach o gymorth ariannol (SAFA) dan Gytundeb Masnach a Chydweithredu y DU a'r UE cyn i'r adran hon o'r Ddeddf ddod i rym.

Dylech gadarnhau'n ysgrifenedig ar y ffurflen gais na fydd y swm y gwneir cais amdano yn rhagori ar drothwy MFA eich sefydliad, sef £315,000.

**Am ragor o wybodaeth, anfonwch neges e-bost at: - businessfunds@bridgend.gov.uk**

**Mae gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr ddisgresiwn llwyr dros delerau, cymhwysedd a phenderfyniadau ynghylch dyfarniadau'r Grant Datblygu Busnes ac mae ganddo'r gallu i ddiwygio'r meini prawf ar unrhyw adeg.**

*Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.*
*We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.*

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government